**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron gynhaliwyd nos Lun, Mawrth 8fed 2021 am 7.30y.h**

**Presennol:** Y Cyghorwyr Wenda Williams, Dafydd Williams, Iain Roberts, Emlyn Jones, Gwenllian Hughes Jones, Nesta Roberts, RJ Williams a Mari Evans
**Yn y gadair:** Y Cyng Nesta Roberts hyd eitem 4 i), cyn i'r Cyng Geraint Jones ymuno gyda'r cyfarfod a chymeryd y gadair.
**1)<u>Ymddiheuriadau a datgan diddordeb</u>** : Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr RG Williams, W Evans a Gareth Roberts
**<u>2)Cyhoeddiadau y cadeirydd</u>**: Nid oedd gan y Cadeirydd gyhoeddiadau
**3)<u>Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8fed o Chwefror 2021</u>**: Cynnigwyd, eilwyd a derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.
**4) <u>Materion yn codi o'r cofnodion</u>**
**i)Cae Chwarae:** Derbyniwyd adroddiad gan y Cyng Gwenllian Hughes Jones ar gynnydd prosiect y cae chwarae. Mae'r grant AHNE wedi ei dderbyn ac wedi ei dalu i fewn i gyfri banc pwyllgor y cae chwarae, hyd yma nid oes anfonebau wedi eu talu ond disgwylir derbyn anfoneb yn fuan gan Gareth Gough am osod y ffens a Proludic am yr offer. Cytunwyd y dylai yr anfonebau gael eu talu cyn diwedd y mis os yn bosibl. Nid yw'r grant Cist Gwynedd wedi ei dderbyn hyd yma.
Trafodwyd y teledu cylch cyfyng a derbyniwyd arweiniad gan yr ICO y bydd angen polisi penodol ac unigolyn wedi ei benodi i fod yn gyfrifol am y camera. Addawodd y Cyng Geraint Jones drafod system gyda trydanwr sydd â phrofiad gosod systemau o'r fath er mwyn cael arweiniad ynglyn a lincio'r camera i system fonitro.
Mae pris ar gyfer gosod tywyrch yn y cae chwarae wedi ei dderbyn gan Llifon Jones, penderfynwyd gofyn i Glyn Jones a Sion Hughes am brisiau yn ogystal.
**ii)Materion yr Eglwys Newydd a threfnu archwiliad o'r fynwent:** Mae'n ymddangos fod y gontract darparu trydan gyda Scottish Power yn golygu na all y Cyngor newid cyflenwr trydan am gyfnod. Penderfynwyd gofyn i Scottish Power os oes posib rhewi y cyflenwad ar hyn o bryd oherwydd fod yr eglwys ar gau.
Derbyniwyd arweiniad gan Unllais Cymru yn cynghori peidio a symud arian y Cyfeillion i gyfri y Cyngor gan fod y Cyfeillion yn elusen gofrestredig. Penderfynwyd y dylai holl aelodau y Cyngor gael eu henwi fel ymddiriedolwyr (dim ond y Cyng RG Williams sy'n ymddiriedolwr ar hyn o bryd). Mae'r Cyng Nesta Roberts yn fodlon bod yn berson cyswllt ar gyfer yr elusen, i gymeryd lle Christopher Rudge 'Refail, Rhydlios.
Penderfynwyd trosglwyddo y swm o £2,000 sydd wedi ei roi yn rhodd i'r Cyfeillion gan Mrs Catherine M Roberts, Hen Aelwyd o gyfrif y Cyngor i gyfrif y Cyfeillion ym Manc y Barclays. Mae'r arian wedi bod yng ngofal y Cyngor am gyfnod tra'r oedd trefniadau yn cael eu gwneud ynghylch cyfri y Cyfeillion gan nad oes pwyllgor Cyfeillion yn bodoli ar hyn o bryd..
**iii)Ymateb Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau mis Ionawr:**
a)Cae'r Efail, Rhoshirwaun: Mae'r gwaith clytio wedi ei gynnwys at y rhaglen waith ddymunol.
b) Bryn Llan a Fantol: Mae'r Cyngor yn ceisio canfod pwy sydd berchen/deilydd y caeau sydd angen ei barbio. Mae'r clerc yn mynd i gysylltu gyda'r swyddog i'w hysbysu pwy yw perchennog y tir.
c)B4413 ger Bodwrdda: Mae'r Cyngor wedi gofyn i denant Bodwrdda 'ddadflocio'r' draen yn ei gae. Bydd trefniadau i lanhau traeniau'r ffordd pan y bydd y peiriant nesaf yn yr ardal.
**iv)Canolfan Crud y Werin:** Nid oes ateb wedi ei dderbyn hyd yma, cymerir fod pennaeth yr ysgol yn dal i aros am ymateb gan y swyddog addysg.
Mae cais wedi ei wneud gan y y pennaeth i'r Cyngor Cymuned gymeryd cyfrifoldeb gyda hi am ddibrilliwr fydd yn cael ei osod yn rhad ac am ddim ar y safle. Penderfynwyd aros hyd y bydd y pwyllgor yn cael ei ffurfio yn ôl y drefn gywir, (h.y yn cynnwys cynrhychiolwyr o fudiadau a chymdeithasau lleol cyn ymrwymo). Penderfynwyd y byddai y Cyng Gwenllian Hughes Jones yn egluro hyn iddi.
**v)Trefniadau y traeth yn ystod y tymor ymwelwyr:** Derbyniwyd neges gan Bryn Pritchard

Jones o’r Adran Forwrol yn egluro bwriad i benodi gweithiwr i fod yn gyfrifol am y traeth rhwng canol Mehefin a chanol Medi. Nododd na fydd y byrddau pren yn cael eu gosod ar y traeth eleni gan fod nifer wedi eu difrodi ac nid yw yn bosibl prynu rhai newydd - mynegwyd pryder gan yr aelodau gan fod y gallu i lawnsio cychod ar y traeth yn hanfodol bwysig a bod gaddewid wedi ei roi gan Gyngor Gwynedd y byddent yn cael eu gosod pob blwyddyn. Tynnwyd sylw at ffensys a chanllaw sydd wedi torri, un ym mhen draw y fynwent, un ger y prom ac un arall ger yr afon, rhwng y toiledau a’r tai. Penderfynwyd hysbysu Cyngor Gwynedd.

**vi)Cilbost ger Gors, Anelog:** Derbyniwyd gaddewid gan y tirfeiddianwr y bydd y cilbost yn cael ei ail osod cyn gynted ag y bydd y tymor wyna drosodd.

**5) <u>Gohebiaethau</u>**

i)Llythyr gan y Swyddfeydd Post Cyf ynghylch Swyddfa Bost Aberdaron: Mae llythyrdy Aberdaron ar gau ar hyn o bryd a phenderfynwyd gofyn i’r Cynghorydd Sir os ydi hi yn bosibl iddo roi pwysau ar y Swydddfeydd Post i gael lleoliad ar gyfer post yn y pentref.

**6) <u>Cynllunio</u>**

Cais C21/0144/30/DT Codi dau adeilad ar dir a ddefnyddir ar gyfer parcio ac fel gardd - Capel Rhydlios: Dim gwrthwynebiad cyn belled nad yw’r adeiladau yn rhy uchel.

**7)Cyfraniadau ariannol**

Penderfynwyd rhoi cyfraniad o £200 yr un i:
Neuadd Y Rhiw
Neuadd Rhoshirwaun
Canolfan Crud y Werin

**8)Ariannol**

Adroddiad y BDO: Derbyniwyd adroddiad yr archwiliad allannol i gyfrifon 2019-20, roedd dau fater yn codi yn dilyn yr archwiliad:
i)Arian wrth gefn, ym marn yr archwiliwr mae gan y Cyngor arian wrth gefn sydd heb gael eu clustnodi ar gyfer bwriad penodol. Nodwyd fod y cronfeydd wrth gefn wedi eu clustnodi ar gyfer y cae chwarae a gwariant sydd yn angenrheidiol ar gyfer atgyweirio yr eglwys (yn enwedi y to)- mae prisiau o rhwng £60,000 ac £80,000 wedi eu derbyn ar gyfer y gwaith angenrheidiol. Mae’r prosiectau penodol yma wedi eu cofnodi yng nghyllideb y Cyngor, ac wedi eu dwyn i syw yr archwiliwr yn flynyddol.
ii)Cyfeirnod y cofnodion pan yn cadarnhau y ffurflen flynyddol wedi ei gofnodi yn anghywir ar y ffurflen (nodwyd eitem 4 yn lle 5 ar y ffurflen). Bydd y clerc yn sicrhau y bydd y cyfeirnod yn gywir ar y ffurflen.

**Taliadau**

Awdurdodwyd y taliadau canlynol i’w talu trwy drefniant bancio arlein:
Iwan Hughes: £1064.06 (cyflog 6 mis)
HMRC (Paye): £44.20
Costau clercio: £67.49 (costau)
Cradur.com: £33 (cynnal y wefan)
Iwan Hughes: £40 (cofrestru 8 claddedigaeth yn ystod 2020)

**Derbyniadau**

RO Jones: Claddedigaeth y diweddar Jane Williams, Pengroeslon Fawr - £145
RO Jones: Claddu llwch y diweddar Jane Ellen Roberts, Solfach - £120

**9) <u>Materion ffyrdd a llwybrau</u>**

i)Nodwyd fod y môr yn bwyta i’r tir ym mhen draw y maes parsio, yn agos i’r orsaf bwmpio. Penderfynwyd hsybysu Cyngor Gwynedd.
ii)Slogan ‘Cofiwch Dryweryn’ ar ben yr allt: Derbyniwyd cynnig gan y Cyng Iain Roberts fod yr ysgrifen yn cael ei lanhau a plac yn cael ei roi yn ei le, eilwyd gan y Cyng RJ Williams. Derbyniwyd gwelliant gan y Cyng Dafydd Williams i beidio a rhoi plac, eilwyd gan y Cyng Nesta Roberts. Pleidleisiodd y mwyafrif o blaid y gwelliant.
iii)Mae carreg ar y bont yn Aberdaron wedi ei thrawo gan lori, pendefynwyd hysbysu Cyngor Gwynedd.

iv)Penderfynwyd atgoffa y Cyngor ynghylch cael arwydd troedau ‘s’ ger Geufron, Aberdaroin ac arwydd ‘araf’ ger eglwys Bodferin.
v)Nodwyd fod rhannau o’r allt fôr wedi llithro yng nghyffiniau Y Rhiw a Phenycaerau a bod Cyngor Gwynedd yn adgyweirio llwybr yr arfordir yn yr ardaloedd yma.
vi)Mae cyflwr pont Bodernabwy yn parhau i ddirywio (gwybyddwyd y Cyngor yn mis Chwefrior ac arhosir am ymateb).
vii)Mae twll yn y ffordd ger Cae Graig.
viii)Mae tyfiant sy’n tyfu i’r ffordd o Gae’r Efail at Siop y Bont, Llangwnadl wedi ei farbio yn ddiweddar ond mae rhan heb ei farbio gan achosi i gerbydau dynnu allan i’r ffordd.
ix)MAe cwynion yn ardal Y Rhiw am gwn sydd allan o reolaeth, penderfynwyd cysylltu gyda’r warden cwn.
x)Derbyniwyd ymholiadau ynghylch y posibilrwydd o ddatblygu prosiect i greu gwell adnodd o’r Queens, penderfynwyd rhoi y mater ar agenda y cyfarfod nesaf.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf o’r Cyngor nos Lun, Ebrill 12fed am 7.30 yh**